# COFNODION CYFARFOD O'R CYNGOR SIR A GYNHALIWYD DRWY TEAMS DDYDD IAU, 13 MAI 2021

YN BRESENNOL
Y Cynghorydd Sir R G Thomas (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr Sir MC Alexander, M Barnes, B Baynham, J Berriman, G Breeze, J Charlton, L V Corfield, K W Curry, A W Davies, B Davies, D E Davies, P Davies, S C Davies, M J Dorrance, D O Evans, J Evans, L Fitzpatrick, L George, J Gibson-Watt, M R Harris, S M Hayes, H Hulme, A Jenner, E A Jones, D R Jones, E Jones, G Jones, J R Jones, E M Jones, M J Jones, D Jones-Poston, F H Jump, K Laurie-Parry, H Lewis, K Lewis, P E Lewis, MC Mackenzie, I McIntosh, S McNicholas, DW Meredith, C Mills, JG Morris, R Powell, WD Powell, D R Price, P C Pritchard, G Pugh, J Pugh, G W Ratcliffe, L Rijnenberg, L Roberts, P Roberts, K M Roberts-Jones, E Roderick, D Rowlands, K S Silk, D Selby, L Skilton, D A Thomas, T J Van-Rees, E Vaughan, M Weale, J Wilkinson, A Williams, G I S Williams, D H Williams, J Williams, J M Williams a R Williams

## 1. ETHOL CADEIRYDD

Enwebwyd y Cynghorwyr Sir Gareth Ratcliffe a Gwynfor Thomas ar gyfer swydd Cadeirydd y Cyngor. Dywedodd y Swyddog Monitro y cytunwyd mewn cyfarfod o arweinwyr y grwpiau a gynhaliwyd cyn y cyfarfod blynyddol ym mis Tachwedd y gallai enw'r Cynghorydd Gwynfor Thomas fynd ymlaen yn y cyfarfod blynyddol nesaf. Gallai'r Cyngor fwrw ymlaen ar y sail honno neu gallai bleidleisio i atal Rheolau Sefydlog. Cynigiwyd gan y Cynghorydd Sir David Meredith ac eiliwyd gan y Cynghorydd Sir Sandra Davies y dylid atal Rheolau Sefydlog ar gyfer eitemau 1, 2 a 3 ar yr agenda. O 43 pleidlais i 23 gyda 2 yn ymatal

**PENDERFYNWYD y dylid atal Rheolau Sefydlog ar gyfer eitemau 1, 2 a 3 ar yr agenda.**

Yn dilyn pleidlais

**PENDERFYNWYD y dylid ethol y Cynghorydd Sir Gwynfor Thomas yn Gadeirydd am y flwyddyn i ddod.**

## 2. ETHOL IS-GADEIRYDD

Enwebwyd y Cynghorwyr Sir Gareth Ratcliffe ac Edwin Roderick. Yn dilyn pleidlais

**PENDERFYNWYD y dylid ethol y Cynghorydd Sir Gareth Ratcliffe yn Is-gadeirydd am y flwyddyn i ddod.**

| 3. | ETHOL IS-GADEIRYDD CYNORTHWYOL |
|---|---|

**PENDERFYNWYD y dylid ethol y Cynghorydd Sir Jon Williams yn Is-gadeirydd Cynorthwyol am y flwyddyn i ddod.**

| 4. | YMDDIHEURIADAU |
|---|---|

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr Sir Emily Durrant, Gareth Morgan a Sarah Williams.

| 5. | DATGANIADAU O FUDDIANT |
|---|---|

Roedd gan bob Aelod fuddiannau personol, nad oeddent yn rhagfarnu yn eitem 7 Atodlen Taliadau'r Aelodau. Dywedodd y Swyddog Monitro fod yna oddefeb gyffredinol ar gyfer hyn ond y dylai'r Aelodau lenwi ffurflen datgan buddiant.

| 6. | DYRANIADAU, ETHOLIADAU A PHENODIADAU Y MAE'N OFYNNOL EU GWNEUD YNG NGHYFARFOD BLYNYDDOL Y CYNGOR |
|---|---|

Ystyriodd y Cyngor adroddiad Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd ar y dyraniadau a'r penodiadau i'w gwneud i bwyllgorau a chyrff allanol.

**Penodiadau Cytbwys yn Wleidyddol i Bwyllgorau'r Cyngor**

Cynigiwyd yr argymhelliad ym mharagraff 5.3 gan y Cynghorydd Sir Jonathan Wilkinson a'i eilio gan y Cynghorydd Sir Rosemarie Harris

| PENDERFYNWYD | Rheswm dros y penderfyniad: |
|---|---|
| **Cymeradwyo dyrannu seddi ar Bwyllgorau'r Cyngor i'r gwahanol Grwpiau Gwleidyddol yn unol ag Atodiad 5.** | **Cydymffurfio â gofynion statudol (gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud â'r angen am gydbwysedd gwleidyddol) a Chyfansoddiad y Cyngor mewn perthynas â dyrannu a phenodi aelodau a Chadeiryddion y Pwyllgorau.** |

**Penodi Cynghorwyr i Bwyllgorau**

| PENDERFYNWYD | Rheswm dros y Penderfyniad: |
|---|---|
| **Gwneud penodiadau i'r Pwyllgorau yn unol â dymuniadau'r gwahanol Grwpiau Gwleidyddol fel y nodir yn Atodiad 6** | **Cydymffurfio â gofynion statudol (gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud â'r angen am gydbwysedd gwleidyddol) a Chyfansoddiad y Cyngor mewn perthynas â dyrannu a phenodi aelodau a Chadeiryddion y Pwyllgorau.** |

**Penodi Cadeiryddion Pwyllgorau Craffu**

Cynigiwyd yr argymhelliad ym mharagraff 6.5 yn yr adroddiad gan y Cynghorydd Sir Gareth Ratcliffe a'i eilio gan y Cynghorydd Sir Edwin Roderick

| PENDERFYNWYD | Rheswm dros y Penderfyniad: |
|---|---|
| **Dyrannu 3 Chadeirydd y Pwyllgorau Craffu i'r Grwpiau Gwleidyddol fel a ganlyn:**<br>**Pwyllgor Craffu'r Economi, Preswylwyr a Chymunedau - y Cynghorydd Sir Matthew Dorrance**<br>**Pwyllgor Craffu Iechyd a Gofal - y Cynghorydd Sir Amanda Jenner**<br>**Pwyllgor Craffu Dysgu a Sgiliau - y Cynghorydd Sir Pete Roberts** | **Cydymffurfio â gofynion statudol (gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud â'r angen am gydbwysedd gwleidyddol) a Chyfansoddiad y Cyngor mewn perthynas â dyrannu a phenodi aelodau a Chadeiryddion y Pwyllgorau.** |

**Penodi Cadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd**

Enwebwyd y Cynghorydd Sir Elwyn Vaughan gan y Cynghorydd Sir Ange Williams ac eiliwyd hyn gan y Cynghorydd Sir Martin Weale.

> **PENDERFYNWYD y dylid penodi'r Cynghorydd Sir Elwyn Vaughan yn Gadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd am y flwyddyn i ddod.**

**Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog (APCBB)**

Dywedwyd wrth y Cyngor, yn dilyn ethol y Cynghorydd Sir James Evans i'r Senedd, mai enwebiad y Ceidwadwyr oedd y Cynghorydd Sir Iain McIntosh. Yn ddarostyngedig i'r newid hwn, cynigiwyd yr enwebiadau a nodwyd ym mharagraff 8.3 yr adroddiad gan y Cynghorydd Sir Phil Pritchard ac fe'u heiliwyd gan y Cynghorydd Sir Martin Weale.

| PENDERFYNWYD | Rheswm dros y Penderfyniad: |
|---|---|
| **Gwneud penodiadau i Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn unol ag enwebiadau'r grwpiau gwleidyddol fel y nodir isod:**<br><br>**<u>Grŵp Annibynnol</u>**<br>**Y Cynghorydd Sir Michael J. Jones**<br>**Y Cynghorydd Sir Phil Pritchard**<br>**Y Cynghorydd Sir Edwin Roderick**<br><br>**<u>Ceidwadwyr Cymru</u>**<br>**Y Cynghorydd Sir Iain McIntosh**<br><br>**<u>Democratiaid Rhyddfrydol Cymru</u>**<br>**Y Cynghorydd Sir Gareth Ratcliffe** | **Gwneud penodiadau yn unol â statud a'r Cyfansoddiad.** |

| **Llafur Cymru**<br>**Y Cynghorydd Sir Susan McNicholas** | |
|---|---|

**Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC)**

Enwebwyd y Cynghorwyr Sir Aled Davies, Matthew Dorrance, Rosemarie Harris a Rachel Powell. Yn dilyn pleidlais

**PENDERFYNWYD y dylid penodi'r Cynghorwyr Sir Aled Davies, Rosemarie Harris a Rachel Powell i Gyngor CLlLC.**

**Bwrdd Gweithredol Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru**

Enwebwyd y Cynghorydd Sir Rosemarie Harris gan y Cynghorydd Sir Michael Williams ac eiliwyd hyn gan y Cynghorydd Sir James Evans.

**PENDERFYNWYD y dylid penodi'r Cynghorydd Sir Rosemarie Harris i Fwrdd Gweithredol CLlLC.**

| **7.** | **ATODLEN TALIADAU'R AELODAU 2021-2022** |
|---|---|

Atgoffodd y Swyddog Monitro yr Aelodau fod ganddynt fuddiant personol nad oedd yn rhagfarnu yn yr eitem hon ond bod yna oddefeb gyffredinol.

Nododd y Cyngor argymhellion Panel Taliadau Annibynnol Cymru (IRPW) mewn perthynas â'r symiau i'w talu fel Cyflog Sylfaenol, Cyflog i Gynghorwyr Hŷn a Chyflogau Dinesig. Atgoffwyd y Cyngor fod y Cyflog Sylfaenol wedi'i bennu gan yr IRPW a bod yn rhaid ei dalu. Roedd yn ofynnol i'r Cyngor gymeradwyo nifer y swyddi cyflog Uwch sy'n cael eu talu a chymeradwyo cyhoeddi Atodlen Tâl yr Aelodau 2021/22.

| **PENDERFYNWYD** | **Rheswm dros y Penderfyniad:** |
|---|---|
| **Bod Aelodau yn:**<br>**(i) cymeradwyo'r argymhelliad ar gyfer dyrannu hyd at 17 o Gyflogau i Gynghorwyr Hŷn (fel y'u diwygiwyd) fel y manylir yn adran 4.11 yr adroddiad.**<br>**(ii) cymeradwyo cyhoeddi Atodlen Tâl yr Aelodau yn seiliedig ar yr adroddiad.** | **Cymryd penderfyniadau yn ymwneud â Chyflogau, Lwfansau a Threuliau Aelodau yn unol â statud ac adroddiad blynyddol a rheoliadau'r IRPW.** |

**Y Cynghorydd Sir R G Thomas (Cadeirydd)**